# PENODI CYNRYCHIOLYDD

## *i wneud penderfyniadau ar eich rhan ynglŷn â rhoi organau*

Mae'r ffurflen hon yn caniatáu i chi benodi Cynrychiolydd i wneud penderfyniadau ar eich rhan ynglŷn â rhoi organau pe baech chi'n marw mewn amgylchiadau lle gallech fod yn rhoddwr organau.

Gallwch chi gofnodi hyd at ddau Gynrychiolydd Penodedig ar Gofrestr Rhoddwyr Organau y GIG.

Os byddwch chi'n dewis cofnodi dau Gynrychiolydd, bydd eu barn yn cael yr un statws.

Felly, nid yw'r drefn o'u cofnodi isod yn bwysig. Bydd eu barn yr un mor ddilys â'i gilydd.

Fodd bynnag, oni bai bod y penodiad yn nodi eu bod wedi cael eu penodi i weithredu ar y cyd yn unig, y sefyllfa fel y mae yw y gall y Cynrychiolwyr Penodedig wneud y penderfyniad ar y cyd neu ar wahân. Mae hyn yn golygu nad oes rhaid iddynt gytuno. Gall un ohonynt roi cydsyniad ni waeth beth mae'r cynrychiolydd arall yn ei benderfynu.

**Mae angen gwneud penderfyniadau'n gyflym am Roi Organau.**

Felly, mae'n bwysig rhoi rhifau ffôn i ni, yn enwedig rhifau symudol, a sicrhau bod y manylion yn gyfredol.

Dim ond ar ôl i'r ffurflen hon gael ei derbyn a'i gwirio gan Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG y bydd eich manylion chi a manylion eich Cynrychiolydd yn cael eu cofnodi ar y Gofrestr.

*Cofiwch fod angen yn gyfreithiol i Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gael caniatâd gan y Cynrychiolydd i storio eu manylion ar y Gofrestr, ac er mwyn i'r penodiad hwn fod yn rhwymol, mae angen i berson annibynnol fod yn dyst iddo.*

Felly, bydd angen i chi gael llofnodion y canlynol er mwyn i'r ffurflen hon gael ei llenwi'n gywir:

- y Person sy'n Penodi
- unrhyw Gynrychiolwyr
- a Thyst.

**Os nad yw unrhyw un o'r llofnodion hyn ar y ffurflen ar ôl ei dychwelyd, ni fydd Gwasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG yn gallu cofnodi eich Cynrychiolwyr Penodedig.**

**I weithredu fel Cynrychiolydd Penodedig, rhaid i chi fod dros 18 oed.**

**Dychwelwch y ffurflen ar ôl ei chwblhau i:**

**Cofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG**
**NHS Blood and Transplant**
**500 North Bristol Park**
**Filton**
**Bristol**
**BS34 7QH**

Os oes angen unrhyw help neu gyngor arnoch chi wrth lenwi'r ffurflen hon, gallwch chi gysylltu â ni drwy ffonio 0300 123 23 23 23 neu anfon e-bost: **ODRTeamEnquiries@nhsbt.nhs.uk**

EICH MANYLION CHI – Y PERSON SY'N PENODI ADRAN 1

CYFENW: ____________ ENWAU CYNTAF: ____________

CYFEIRIAD: ____________ TEITL: ____________

____________

____________ DYDDIAD GENI: ____________

COD POST: ____________

FFÔN: ____________ E-BOST: ____________

FFÔN SYMUDOL: ____________

Hoffwn benodi'r Person/Pobl a enwir isod i fod yn Gynrychiolydd Penodedig i mi mewn perthynas â rhoi organau. Rwy'n deall y byddant yn gwneud unrhyw benderfyniadau am roi organau ar fy rhan. Rwy'n deall mai'r sefyllfa os gallwn fod yn rhoddwr organau yw y gallai fod angen rhannu manylion fy hanes meddygol gyda nhw i'w helpu i wneud penderfyniad. Rwyf hefyd yn deall nad yw Cynrychiolwyr Penodedig yn cael eu cydnabod yng nghyfraith yr Alban, felly pe bawn i'n marw yn yr Alban, byddai gofyn i fy nheulu gydsynio yn lle fy Nghynrychiolydd.

*Hoffwn i'm Cynrychiolwyr Penodedig weithredu ar y cyd yn unig wrth wneud y penderfyniad am roi organau (mae hyn yn golygu bod rhaid iddynt gytuno ar eu penderfyniad)* ☐

Llofnod: Dyddiad:

Ticiwch y blwch i gadarnhau

MANYLION Y CYNRYCHIOLYDD/CYNRYCHIOLWYR ADRAN 2

**CYNRYCHIOLYDD A**

CYFENW: ____________ ENW CYNTAF: ____________

CYFEIRIAD: ____________ TEITL: ____________

____________

____________ DYDDIAD GENI: ____________

COD POST: ____________

FFÔN: ____________ E-BOST: ____________

FFÔN SYMUDOL: ____________

Drwy lofnodi isod, rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon gweithredu fel Cynrychiolydd Penodedig mewn perthynas â rhoi organau'r person a enwir o dan Adran 1 ar y ffurflen hon. Rwy'n cadarnhau fy mod dros 18 oed. Rwy'n cytuno i Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gadw fy ngwybodaeth ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG at y diben hwn. Rwy'n deall nad yw'r penodiad hwn yn ddilys dan gyfraith yr Alban

Llofnod Cynrychiolydd A : Dyddiad :

MANYLION Y CYNRYCHIOLYDD/CYNRYCHIOLWYR ADRAN 2

**CYNRYCHIOLYDD B**

CYFENW: ________________ ENW CYNTAF: ________________

CYFEIRIAD: ________________ TEITL: ________________

________________

________________ DYDDIAD GENI: ________________

COD POST: ________

FFÔN : ________________ E-BOST: ________________

FFÔN SYMUDOL: ________________

Drwy lofnodi isod, rwy'n cadarnhau fy mod yn fodlon gweithredu fel Cynrychiolydd Penodedig mewn perthynas â rhoi organau'r person a enwir o dan Adran 1 ar y ffurflen hon. Rwy'n cadarnhau fy mod dros 18 oed. Rwy'n cytuno i Wasanaeth Gwaed a Thrawsblaniadau'r GIG gadw fy ngwybodaeth ar Gofrestr Rhoddwyr Organau'r GIG at y diben hwn. Rwy'n deall nad yw'r penodiad hwn yn ddilys dan gyfraith yr Alban.

Llofnod Cynrychiolydd B : Dyddiad :

MANYLION Y TYST ADRAN 3

***Rhaid i barti annibynnol fod yn dyst i'r penodiad hwn. Mae hyn yn golygu na all y tyst isod fod yn un o'r Cynrychiolwyr Penodedig nac y Person sy'n Penodi.***

CYFENW: ________________ ENW CYNTAF: ________________

CYFEIRIAD: ________________ TEITL: ________________

________________

________________ DYDDIAD GENI: ________________ COD

POST: ________

**Datganiad tyst**

Rwy'n cadarnhau fy mod wedi tystio i'r ddogfen hon gael ei llofnodi ac mai:

- Llofnod y person sy'n penodi Cynrychiolydd yw'r llofnod yn Adran 1;
- Llofnod Cynrychiolydd A yw'r llofnod a restrir yn yr adran ar gyfer Cynrychiolydd A, ac
- Llofnod Cynrychiolydd B yw'r llofnod a restrir yn yr adran ar gyfer Cynrychiolydd B [croeswch y pwynt bwled hwn os nad oes Cynrychiolydd B]

Llofnod y tyst : Dyddiad :